OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 2796

# Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2006

**Asesiad o gapasiti cynhyrchiol tir**

**2.**—(1) Mae'r erthygl hon yn cael effaith at ddibenion asesu capasiti cynhyrchiol uned o dir amaethyddol sydd wedi'i lleoli yng Nghymru, er mwyn penderfynu a yw'r uned honno'n uned fasnachol o dir amaethyddol o fewn ystyr "commercial unit of agricultural land" yn is-baragraff 3(1) o Atodlen 6 i Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986.

(2) Am y cyfnod o 12 mis gan ddechrau ar 12 Medi 2004, pan ellir defnyddio'r tir o dan sylw, wrth ei ffermio o dan reolaeth gymwys, i gynhyrchu unrhyw dda byw, cnwd, ffrwythau, neu gynnyrch amrywiol, fel a grybwyllir yn unrhyw un o gofnodion 1 i 6 yng ngholofn 1 o Atodlen 1, yna—

(a) yr uned a bennir yng ngholofn 2 o Atodlen 1 gyferbyn â'r cofnod hwnnw fydd yr uned gynhyrchu a ragnodir mewn perthynas â'r defnydd hwnnw o'r tir, a

(b) y swm a bennir yng ngholofn 3 o Atodlen 1 gyferbyn â'r cofnod hwnnw fel y'i darllenir gydag unrhyw Nodyn perthnasol i Atodlen 1 fydd y swm a benderfynir fel yr incwm blynyddol net gan yr uned gynhyrchu honno yn y cyfnod hwnnw.

(3) Am y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar 12 Medi 2004, pan fo tir y gellid ei ddefnyddio, wrth ei ffermio o dan reolaeth gymwys, i gynhyrchu incwm blynyddol net, yn wrthrych taliadau Tir Mynydd neu pan fo wedi'i ddynodi'n neilltir, fel a grybwyllir yng nghofnodion 7 ac 8 yng ngholofn 1 o Atodlen 1, yna —

(a) yr uned a bennir yng ngholofn 2 o Atodlen 1 gyferbyn â'r cofnod hwnnw fydd yr uned gynhyrchu a ragnodir mewn perthynas â'r defnydd hwnnw o'r tir, a

(b) y swm yn y cofnod yng ngholofn 3 o Atodlen 1 gyferbyn â'r cofnod hwnnw fydd y swm a benderfynir fel yr incwm blynyddol net gan yr uned gynhyrchu honno yn y cyfnod hwnnw.

(4) Am y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar 12 Medi 2005, pan ellir defnyddio'r tir dan sylw, wrth ei ffermio o dan reolaeth gymwys, i gynhyrchu unrhyw dda byw, cnwd, ffrwythau, neu gynnyrch amrywiol, fel a grybwyllir yn unrhyw un o gofnodion 1 i 6 yng ngholofn 1 o Atodlen 2, yna—

(a) yr uned a bennir yng ngholofn 2 o Atodlen 2 gyferbyn â'r cofnod hwnnw fydd yr uned gynhyrchu a ragnodir mewn perthynas â'r defnydd hwnnw o'r tir, a

(b) y swm a bennir yng ngholofn 3 o Atodlen 2 gyferbyn â'r uned gynhyrchu honno fel y'i darllenir gydag unrhyw Nodyn perthnasol i Atodlen 2 fydd y swm a benderfynir fel yr incwm blynyddol net gan yr uned gynhyrchu honno yn y cyfnod hwnnw.

(5) Am y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar 12 Medi 2005, pan fo tir y gellid ei ddefnyddio, wrth ei ffermio o dan reolaeth gymwys, i gynhyrchu incwm blynyddol net, yn wrthrych taliadau Tir Mynydd neu pan fo wedi'i ddynodi'n neilltir yn y flwyddyn farchnata 2004/2005, fel a grybwyllir yng nghofnodion 7 ac 8 yng ngholofn 1 o Atodlen 2, yna—

(a) yr uned a bennir yng ngholofn 2 o Atodlen 2 gyferbyn â'r cofnod hwnnw fydd yr uned gynhyrchu a ragnodir mewn perthynas â'r defnydd hwnnw o'r tir, a

(b) y swm yn y cofnod yng ngholofn 3 o Atodlen 2 gyferbyn â'r cofnod hwnnw fydd y swm a benderfynir fel yr incwm blynyddol net gan yr uned gynhyrchu honno yn y cyfnod hwnnw.